

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Telerau ac Amodau ar gyfer Cynllun Parcio Preswylwyr

Cyffredinol

1. Dim ond preswylwyr eiddo sy'n rhan o gynllun trwyddedau parcio preswyl sy'n cael trwyddedau parcio preswylwyr.
2. Mae trwyddedau parcio preswylwyr yn flynyddol ac yn ddilys tan ddiwedd y mis cyhoeddi y flwyddyn ganlynol (h.y. os yw'r drwydded a roddwyd yn ddilys o 2 Ebrill 2019, byddai'r drwydded yn dod i ben 30 Ebrill 2020).
3. Sylwer nad yw prynu trwydded parcio yn gwarantu lle mewn man parcio i breswylwyr. Os yw mannau parcio preswyl yn llawn, efallai y bydd angen ceisio mannau parcio amgen a bydd rhaid cadw at y cyfyngiadau yn yr ardal honno.
4. Ni chaniateir parcio mewn bae parcio i breswylwyr nes bod y drwydded yn cael ei dderbyn a'i arddangos yn y cerbyd.

Ceisiadau:

5. Rhaid gwneud pob cais trwy wefan y Cyngor yn www.caerffili.gov.uk. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i newid y broses ymgeisio ar unrhyw adeg pe bai'r angen yn codi.
6. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais pan nad yw'n fodlon bod yr amodau y mae'n rhaid eu clymu wrth y cais wedi'u cyflawni.
7. Fel rhan o'r cais, mae'n rhaid i chi ddarparu dogfennau a thystiolaeth ychwanegol i gefnogi cais.

Ildio, tynnu'n ôl a dilysrwydd trwyddedau

8. Os oes angen trwydded newydd yn dilyn newid cerbyd, dylai deilydd y drwydded wneud cais i'r Cyngor. Codir tâl o £15 yn dilyn newid cerbyd. Dylid dychwelyd eich trwydded bresennol i'r Cyngor.
9. Os caiff trwydded ei cholli neu ei dinistrio yna dylai deiliad y drwydded wneud cais i'r Cyngor i'r drwydded gael ei amnewid ar ôl i'r Cyngor fodloni dilysrwydd yr hawliad o golli neu ddinistrio o'r fath. Bydd tâl o £15 ar gyfer trwyddedau newydd.
10. Nid yw trwyddedau yn cael eu had-dalu.
11. Os caiff trwydded ei difrodi neu ei difwyno, neu os yw'r ffigurau neu'r manylion ar y drwydded wedi mynd yn annarllenadwy neu wedi diflannu, neu os yw'r drwydded wedi'i difrodi mewn unrhyw fodd i atal ei defnyddio yna bydd deilydd y drwydded yn ei ddychwelyd i'r Cyngor fel y gellir eu hadnewyddu. Bydd tâl o £15 ar gyfer trwyddedau newydd.
12. Os nad ydych chi angen eich trwydded mwyach yna mae'n rhaid dychwelyd y drwydded i'r Cyngor.
13. Nid yw trwyddedau yn drosglwyddadwy (er enghraifft os ydych chi'n symud cyfeiriad). Ni ellir trosglwyddo trwyddedau parcio rhwng eiddo felly mae'n rhaid gwneud cais newydd wrth symud tŷ hyd yn oed o fewn yr un parth.

14. Ni chaniateir i landlordiaid a pherchenogion yr eiddo wneud cais am drwydded oni bai eu bod yn byw yn yr eiddo y gwneir y cais amdano.
15. Mae trwyddedau parcio preswyl yn parhau i fod yn eiddo i'r Cyngor a gellir eu canslo neu eu dirymu ar unrhyw adeg. Os bydd Swyddog Gorfodi Sifil yn gofyn am weld eich trwydded parcio mae'n rhaid i chi ddangos hynny iddynt. Os ydynt yn amau ei bod yn cael ei ddefnyddio'n dwyllodrus, mae ganddynt yr awdurdod i atafaelu'ch trwydded a rhaid i chi beidio â'u rhwystro rhag cyflawni'r cam hwn.
16. Ni chaniateir trwyddedau ar gyfer unrhyw gerbyd teithwyr sydd â threlar ynghlwm neu sy'n cynnwys mwy na 12 o deithwyr.
17. Rhoddir trwyddedau i gerbydau nwyddau sy'n cael eu hadeiladu neu eu haddasu i'w defnyddio ar gyfer cludo nwyddau neu drelar cyn belled nad yw'r uchder yn fwy na 2.44 metr yn gyfan gwbl, ac nid yw'r hyd yn fwy na 5.49 metr yn gyfan gwbl.
18. Ni chaniateir trosglwyddo trwyddedau preswyl rhwng cerbydau nac wrth newid manylion cofrestru cerbydau, e.e. platiau rhif cerbyd preifat
19. Gellir trosglwyddo trwyddedau rhwng cerbydau ymwelwyr ar yr amod nad yw'r uchder cyffredinol yn fwy na 2.44 metr ac nad yw'r hyd cyffredinol yn fwy na 5.49 metr.

Cosbau

20. Fe ddaw llythyr â'ch trwydded fydd yn esbonio sut i ddefnyddio'ch trwydded. Rhaid cadw at y cyfarwyddiadau a gynhwysir yn y llythyr hwnnw bob amser.
21. Rhaid dangos yr holl drwyddedau yn glir ac ynghlwm wrth y sgrin wynt neu eu gosod ar ddangosfwrdd y cerbyd, gan sicrhau y bydd yr holl fanylion perthnasol yn weladwy i Swyddog arolygu bob amser.
22. Os nad oes gennych fynediad at drwydded ddilys am unrhyw reswm, nid oes hawl gennych i barcio mewn bae, ardal neu Barth trwyddedau preswyl a rhaid ichi ddod o hyd i ddewis cyfreithiol amgen.
23. Os ydych chi'n torri'r telerau a'r amodau hyn, efallai y byddwch yn atebol am Hysbysiad Tâl Cosb (dirwy parcio).

Bydd y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 er mwyn cyflawni ein rhwymedigaeth gyfreithiol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol, fodd bynnag, bydd yn cael ei rannu â Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer atal a chanfod twyll a sefydliadau eraill pan fo'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerffili yn rheoli data personol, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd y gellir ei weld ar wefan y Cyngor.